Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DATGANIAD YSGRIFENEDIG
# GAN
# LYWODRAETH CYMRU

**TEITL:** **Cyllideb Ddrafft 2013-14**

**DYDDIAD:** **2 Hydref 2012**

**GAN:** **Jane Hutt, y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ**

Rwyf heddiw wedi cyhoeddi cynigion Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2013-14.

Bydd cynigion y Gyllideb Ddrafft, dogfen naratif y Gyllideb Ddrafft, ynghyd â thablau cyllidebol manwl, ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ar wefan Llywodraeth Cymru - http://wales.gov.uk/funding/budget/draftbudget1314/?skip=1&lang=cy.

Trwy ein Cyllideb ar gyfer Twf a Swyddi, rydym yn dyrannu £175m yn rhagor o fuddsoddiad cyfalaf yn y Gyllideb Ddrafft hon i gefnogi prosiectau seilwaith allweddol ledled Cymru. Drwy hynny byddwn yn creu neu’n cefnogi mwy na 3000 o swyddi dros y ddwy flynedd nesaf.

Mae’r cynlluniau gwariant hyn yn dangos ein hymrwymiad parhaus i greu economi fwy llewyrchus, gwasanaethau cyhoeddus gwell a mwy effeithlon, a chanlyniadau gwell ar gyfer Cymru.